**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher Rhagfyr 13eg 2018 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30yh.**

**Presennol:** Cynghorwyr Catherine Jones (Cadeirydd), Gaynor Wood-Tickle (Is gadeirydd), Colin L Hughes, Roy Tickle, Alyn Ashworth, Glenn Swingler, Gaynor Morgan Rees, Marilyn Jones, Rhys Thomas, Dyfrig Berry & Irene Williams; Jenny Barlow (Clerc y Dref)

**Ymddiheuriadau:** Cyng: Guto Lloyd-Davies, Philip Stevens & Rob Parkes.

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler (Gadawodd y Cyng Kensler y cyfarfod ân 7.15yh).

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod cyn cyllideb mis Rhagfyr.

**103.** Trafod a chytuno ar flaenoriaethau ariannol newydd ar gyfer cyllideb 2019/2020.

Gofynnodd clerc y dref am unrhyw wybodaeth ariannol newydd i'w drafod yng nghyfarfod heno. Byddai hyn yn cael ei gytuno mewn egwyddor a'i ychwanegu at y gyllideb a chostau a wnaed yn unol â hynny i'w drafod yng nghyfarfod cyllideb mis Ionawr.

Trafodwyd yr eitemau isod a chytunwyd eu bod yn cael eu hychwanegu/eu tynnu o'r gyllideb ar gyfer 2019/20 ar gyfer trafodaeth a chytundeb.

a) Lleihau'r gyllideb cymhorthdal o £52,550 i £40,000.

b) Tynnu'n ôl y cymhorthdal Parcio Ceir ym maes parcio Stryd y Dyffryn (£5,000).

c) Edrych ar ffyrdd i leihau'r defnydd o bapur yng nghyfarfodydd y Cyngor - tymor hir.

d) Coed Nadolig, edrychwch ar wahanol opsiynau, ar hyn o bryd mae'r ddwy goeden yn costio tua £2,500.
Cysylltu â busnesau lleol i weld a hoffai unrhyw un noddi unrhyw un o'r goleuadau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

e) Goleuadau Nadolig, arbedion o £7,000 wrth i'r goleuadau fod yn eiddo bellach ac nad ydynt bellach yn cael eu prydlesu.

f) Diwygio'r Rheolau Sefydlog ar gyfer mis Ebrill, cael cyfarfodydd Amgylchedd & Chyllid a Chynllunio ar yr un noson - gwneud arbedion gwasanaeth cyfieithu.

g) Costau Maer - bydd angen cyllideb ar gyfer teithio, tocynnau a rhoddion - £1,200.

h) Ymuno ag Un Llais Cymru am 12 mis ar gost is o £650.

i) Efallai gellir defnyddio'r arian a arbedwyd ar brosiect Neuadd y Dref (i'w drafod ar wahân**).**

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 7.52yh.

Arwyddwyd:................................................................(cadeirydd)

Dyddiad.........................................